# Allforion: Canllaw i'ch Busnes



UK Government
Llywodraeth y DU

EXPORTING IS GREAT
BRITAIN & NORTHERN IRELAND

572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 1 28/03/2017 4:20 PM

EXPORTING IS GREAT

BRITAIN & NORTHERN IRELAND

UK Government
Llywodraeth y DU

great.gov.uk

**Yr Adran Masnach Ryngwladol**
Adran Masnach Ryngwladol y DU sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros hyrwyddo masnach y DU ledled y byd a denu buddsoddiadau yn ein heconomi o wledydd tramor. Rydym yn gorff llywodraeth arbenigol sy'n gyfrifol am negodi polisi masnach ryngwladol, cefnogi busnesau a chyflawni strategaeth diplomyddiaeth masnach sy'n edrych tuag allan.

**Ymwadiad**
Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir, nid yw'r Adran Masnach Ryngwladol yn derbyn atebolrwydd am unrhyw wallau, hepgoriadau neu ddatganiadau camarweiniol, ac ni roddir gwarant na derbyn cyfrifoldeb o ran statws unrhyw unigolyn, ffyrm, cwmni neu sefydliad arall sydd wedi'i grybwyll.

**© Hawlfraint y Goron 2017**
Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heblaw am logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i:

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth yn y deunydd rydych am ei ddefnyddio sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliad/deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn gov.uk/dit
Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn enquiries@trade.gsi.gov.uk.

**Cyhoeddwyd Mawrth 2017**
**gan Lywodraeth y DU**

572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 2 28/03/2017 4:20 PM

# Cynnwys


Rhagair 4

Cymorth i allforio 5

Cymorth ariannol 7

Cyllid ar gyfer sioeau masnach mewn gwledydd tramor 8

Cymorth masnach 9

**Astudiaethau achos**

Airbus 10

BCB International 11

Cloth Cat 12

Dawnus 13

Flamgard 14

Halen Môn 15

Penderyn 16

Radnor Hills 17

Reid Lifting 18

Cwmni Caws Eryri 19

SPTS Technologies 20

Unit Superheater Engineering 21

# Rhagair



**Alun Cairns**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T** : 02920 924228
**E** : trade@walesoffice.gsi.gov.uk

Mae Cymru'n genedl uchelgeisiol sy'n edrych tuag allan ac sydd eisoes yn cyflawni'n well na'r disgwyl ar lefel ryngwladol.

Mae ein gwlad yn gartref i rai o'r cwmnïau mwyaf cyffrous ac arloesol yn y byd ac mae cynhyrchion a wnaed yng Nghymru'n cael eu gwerthu ym mhedwar ban byd.

Ond rydym am gynyddu maint yr allforion o Gymru'n sylweddol a'ch helpu chi i elwa o gyfleoedd masnachu newydd.

Ni fu erioed amser gwell i gwmnïau o Gymru fel eich cwmni chi i achub ar y cyfle a dechrau allforio i farchnadoedd newydd.

Mae amrywiaeth fawr o gymorth ar gael gan Lywodraeth y DU i fusnesau Cymru, o gyngor ac arweiniad i gymorth ariannol a help i gymryd rhan mewn ffeiriau masnach.

Bydd y ddogfen hon yn egluro sut i gael y cymorth sydd ei angen ar eich cwmni i ehangu drwy allforio'ch cynhyrchion i wledydd eraill. Mae hefyd yn dangos enghreifftiau o gwmnïau sydd wedi manteisio'n llwyddiannus ar gymorth gan Lywodraeth y DU.

Rwyf wrth fy modd bod cynifer o gwmnïau o Gymru eisoes yn allforio ac rwyf yn gwir obeithio y bydd eich cwmni'n gallu ymuno â nhw.

Fel rhan o'r Deyrnas Unedig, mae Cymru'n cael budd o'r diogelwch economaidd a dylanwad rhyngwladol a geir drwy rannu ein hadnoddau a'n llwyddiannau â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fy ngwaith i fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw cefnogi busnesau Cymru a gwneud popeth yn fy ngallu i helpu cwmnïau fel eich un chi i ffynnu. Mae fy nrws yn agored i chi bob amser.



**Liam Fox**
Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol

Rwyf yn falch o arwain adran sy'n cefnogi busnesau ar draws y DU.

Mae busnesau yn creu cyfoeth yn ein heconomi drwy: ledaenu ffyniant, creu swyddi, a chynnal ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae busnesau yng Nghymru yn allforio gwerth £ 11.6billion o nwyddau yn 2015 - y manteision o'r rhain yn cael eu teimlo ar draws y DU.

Sefydlwyd fy adran dros Fasnach Ryngwladol yn dilyn Refferendwm yr UE i sicrhau fod y DU yn gwisgo'r bathodyn masnach rydd gydag anrhydedd, a'r ymladd yn ddiflino ar gyfer system masnachu fyd-eang sydd yn fwy rhydd ac agored.

Mae gennym un o'r rhwydweithiau byd-eang mwyaf o unrhyw sefydliad hyrwyddo masnach, sy'n weithredol o fewn 109 o farchnadoedd.

Mae UK Export Finance eisoes yn sicrhau fod cwmnïau Cymreig yn ennill, cyflawni, ac yn cael eu talu am gontractau tramor.

Yn ogystal â hyn mae ein cynnig digidol, great.gov.uk, heb ei ail
- yn dod a busnesau yn agosach at gyfleoedd allforio a phrynwyr byd-eang.

Wrth i un rhan o'r Deyrnas Unedig fasnachu mwy, rydym i gyd yn dod yn fwy cyfoethog. Mewn undod mae nerth.

Mae masnach yn gwella mwy na mantolenni; mae'n codi safonau byw ac yn helpu i adeiladu economi mwy llewyrchus i bawb.

# Cymorth i allforio

*Mae ein gwaith ymchwil wedi canfod bod gan lawer o fusnesau'r potensial i allforio ond nad ydynt yn gwneud hynny, neu efallai eu bod eisoes yn gwerthu dramor ond y gallent gynyddu faint maen nhw'n ei allforio yn sylweddol gyda'r gefnogaeth a'r anogaeth briodol.*

Efallai bod busnesau sy'n gwerthu eu nwyddau ar-lein eisoes yn allforio, ond nad ydynt yn sylweddoli hynny. Mae ganddynt y potensial i gyrraedd at lawer mwy o gwsmeriaid dramor ac mae cymorth ar gael iddynt wneud hynny. Mae llawer o fusnesau'r DU yn dweud wrthym nad ydynt yn gwybod lle i fynd i gael gwybodaeth a chyngor ar allforio.  Mae gan Lywodraeth y DU a'r sector preifat ystod o wasanaethau ar gael i helpu allforwyr newydd a phresennol. Mae'r rhain wedi'u dwyn ynghyd mewn un wefan **great.gov.uk.**

Mae gan great.gov.uk gymorth a chyngor wedi'i deilwra i fusnesau'r DU o ran sut mae dechrau allforio neu gynyddu faint o nwyddau a gwasanaethau maent yn eu gwerthu dramor.  Mae ynddo ganllawiau, gwasanaethau a gwybodaeth gan y llywodraeth a phartneriaid ar gyfer allforwyr newydd, achlysurol a phrofiadol.

**Manteision allforio i fusnesau**

- Mae'n helpu busnesau i gynyddu refeniw ac elw
- Mae'n rhoi hwb i broffil cwmnïau ac yn eu cydnabod yn rhyngwladol
- Mae'n sicrhau lefelau twf uwch
- Mae'n lledaenu risg busnes
- Mae'n annog arbedion maint
- Mae'n cynyddu oes fasnachol cynnyrch a gwasanaethau drwy ddod o hyd i gwsmeriaid a marchnadoedd newydd
- Mae'n gwneud cwmnïau'n fwy cystadleuol ac arloesol
- Mae'n gwella perfformiad ariannol a mantolenni yn sylweddol



572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 5 28/03/2017 4:20 PM

# Cymorth i allforio

**Dewch o hyd i farchnad sy'n barod am eich nwyddau a'ch gwasanaethau drwy great.gov.uk**

### Dod o hyd i brynwr / Dod o hyd i gyflenwr

Mae busnesau'r DU yn creu proffil rhyngwladol ar 'Dod o hyd i Brynwr' ar wefan great.gov.uk. Mae Prynwyr rhyngwladol yn edrych ar y proffiliau hyn drwy'r gwasanaeth 'Dod o hyd i Gyflenwr' ar yr un wefan.

### Gofyn am gyngor gan bartneriaid

Gall busnesau gael cyngor drwy ein rhwydwaith o bartneriaid gan gynnwys darparwyr gwasanaethau ariannol, cwmniau logisteg a llwyfannau e-fasnach.

### Dod o hyd i gyfleoedd allforio

Caniatáu i fusnesau'r DU chwilio drwy filoedd o gyfleoedd allforio a chael cyhoeddiadau newydd yn seiliedig ar eu diddordebau.

### Canllawiau i allforio

Canllawiau, gan gynnwys gwybodaeth am wledydd, ar gyfer allforwyr newydd, achlysurol a phresennol - gan helpu busnesau i lwyddo i allforio.

### Dod o hyd i'r farchnad ar-lein briodol

Mae 'Gwerthu ar-lein dramor' yn helpu busnesau i ddod o hyd i'r marchnadoedd ar-lein gorau ar gyfer gwerthu eu cynnyrch a manteisio ar fargeinion ffafriol.

# Cymorth ariannol

*UK Export Finance (UKEF) yw asiantaeth credydau allforio'r DU ac mae'n rhan o'r Adran Masnach Ryngwladol.*

Ein nod yw sicrhau na fydd unrhyw allforion hyfyw o Gymru'n methu oherwydd diffyg cyllid neu yswiriant. Gallwn ddarparu cymorth ariannol i gwmnïau allforio o bob maint ac ym mhob sector, yn amrywio o nwyddau cyfalaf i wasanaethau a phethau annirweddol fel eiddo deallusol.

Mae UKEF yn helpu nifer cynyddol o gwmnïau yng Nghymru:

- i ennill contractau allforio drwy ddarparu telerau ariannu deniadol i'w prynwyr
- i gyfl awni contractau drwy gefnogi benthyciadau am gyfalaf gweithio
- i gael eu talu drwy yswirio rhag y risg o beidio â thalu

Rydym yn ategu gwaith y sector masnachol, yn hytrach na chystadlu ag ef, ac yn gweithio gyda 70 o yswirwyr a benthycwyr credyd preifat i helpu allforwyr i ddod o hyd i'r ateb ariannol priodol, boed hynny oddi wrth ddarparwr preifat neu oddi wrth y Llywodraeth.

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae cyllid ac yswiriant a gefnogir gan y Llywodraeth yn gallu'ch helpu i allforio, cysylltwch â Mathew Hughes, Rheolwr Cyllid Allforio UKEF i Gymru, i gael ymgynghoriad annibynnol am ddim: **Mathew. hughes@ ukexportfinance.gov.uk** neu ewch i **www.gov.uk/uk-export-finance**
**T : 07772 243678**



# Cyllid ar gyfer sioeau masnach mewn gwledydd tramor

*Gall Llywodraeth y DU ddarparu cyllid i'ch busnes i arddangos eich cynhyrchion mewn sioeau masnach mewn gwledydd tramor.*

Mewn sioeau masnach tramor, gall eich cwmni ddysgu am amodau'r farchnad mewn gwledydd penodol, creu cysylltiadau â phartneriaid masnachu posibl a chael gafael ar gyngor a chymorth gan arbenigwyr masnach.

Bydd y grantiau a gynigir gan Lywodraeth y DU yn gyfwerth â'r symiau rydych yn eu gwario ar bethau fel llogi lle i arddangos, ffioedd cynhadledd a chynhyrchu deunyddiau fel taflenni, stondinau a deunyddiau hysbysebu eraill.

Ymysg dros 80 o sioeau masnach yn y calendr eleni, mae cyfleoedd yn yr Almaen, Tsieina, UDA, Gwlad Thai a'r Emiraethau Arabaidd Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd i'ch cwmni gael cymorth ariannol i fynd i sioe fasnach mewn gwlad dramor, ewch i **www. gov. uk/guidance/tradeshow-access-programme**



# Cymorth masnach

*Mae Llywodraeth y DU yn darparu cyngor a chymorth ar gyfleoedd masnach i fusnesau o bob maint ym mhob rhan o Gymru.*

**Gallwn helpu cwmnïau fel eich un chi:**

- i gyrraedd y cysylltiadau neu bartneriaid priodol mewn gwledydd tramor
- i ddod o hyd i'r ffordd orau o fasnachu mewn marchnad dramor
- i gynyddu'ch elw drwy hysbysebu effeithiol mewn gwledydd tramor

Gallwch siarad ag ymgynghorydd gall roi cyngor i chi am gyfleoedd bydd yn helpu eich cwmni i gael mynediad i rwydwaith Llywodraeth y DU o arbenigwyr mewn gwledydd ledled y byd.

Mae rhwydwaith ryngwladol eang Llywodraeth y DU yn cynnwys dros 1,200 o staff.

Mae gan Llywodraeth y DU rhwydwaith rhyngwladol eang gyda dros 1,200 o staff masnachol mewn 109 o wledydd yn gweithio i wneud y mwyaf o'r galw am gynyrch a gwasanaethau o'r DU ac yn cefnogi cwmniau o'r DU sy'n gwneud ceisiadau o werth uchel. Mae ein staff mewn llysgenhadaethau, conswliaethau, uwch gomisiynau yn cefnogi cwmniau o'r DU dramor i ddarpar fuddsoddwyr ac i ddarpar brynwyr o gynnyrch Prydeinig.

Bydd yr arbenigwyr tramor hyn yn gallu cynghori'ch busnes am amodau'r farchnad, cystadleuwyr, rheoleiddio a safonau mewn gwledydd tramor. Gallant eich cynghori ynghylch sut i ddylanwadu ar rheini sy'n gwneud penderfyniadau, eich helpu i drefnu digwyddiadau, hyrwyddo a gweithio ar ran eich cwmni i ddod o hyd i bartneriaid masnachu posibl.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau a theithiau ar draws y byd a gall cwmnïau o Gymru ymuno a nhw. Yn 2016-17 roedd fwy na 790 o deithiau a digwyddiadau masnach ar gael i gwmnïau yn y DU, gan gynnwys mwy na 80 o deithiau mewnforio ac allforio i mewn ac allan o'r DU a'n partneriaid masnachu allweddol yn fyd-eang.

I gael gwybod sut bydd eich cwmni'n gallu cael gafael ar gymorth masnach, ewch i **www.great.gov.uk**





# Airbus

Bob diwrnod mae allforion o Gymru'n helpu miliynau i deithio'n ddiogel a chysurus ar draws y byd yn awyrennau Airbus.

Mae gwaith y cwmni gweithgynhyrchu awyrennau rhyngwladol ym Mrychdyn yn Sir y Fflint yn rhan annatod o'r busnes sy'n adeiladu awyrennau sydd ymysg yr uchaf eu gwerthiant yn y byd. Yma mae'r adenydd yn cael eu gwneud ar gyfer holl awyrennau Airbus o deulu'r A320 hyd at yr A380 enwog.

Fel rhan hanfodol o sector awyrofod y DU sydd y mwyaf yn Ewrop ar hyn o bryd ac yn ail fwyaf yn y byd, mae gwaith Brychdyn wedi elwa o fuddsoddiad o tua £2 biliwn mewn cyfleusterau gweithgynhyrchu ers dechrau'r mileniwm.

Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod pwysigrwydd sector awyrofod y DU ac wedi darparu buddsoddiadau ac arbenigedd i helpu i sbarduno datblygiadau newydd a thwf busnes. Yn benodol, yn gyfrwng i'r sectorau cyhoeddus a phreifat gydweithio'n agos i sicrhau bod y DU yn cadw ei lle blaenllaw wrth arloesi yn y sector awyrofod.

Ac nid yw'n ymwneud â chynhyrchion awyrofod yn unig – mae'r buddsoddi mewn sgiliau wedi creu swyddi o werth uchel yng Nghymru ac arbenigedd y gellir ei drosglwyddo er budd i gwmnïau ledled Cymru.

Gan y bydd yr archebion sydd gan Airbus ar hyn o bryd yn darparu gwaith ar gyfer y deng mlynedd nesaf ac wedyn, mae partneriaeth gadarn a hirdymor â Llywodraeth y DU yn hanfodol i gynnal y rhan hollbwysig sydd gan y DU a Chymru yn y llwyddiant hwn.



*"Mae Airbus wedi mwynhau perthynas hir a llwyddiannus â Llywodraeth y DU sydd wedi helpu i sicrhau buddsoddi mewn technoleg newydd, gweithgynhyrchu a sgiliau, gan roi'r DU ar y blaen mewn technoleg awyrofod."*

**Paul McKinlay**
Uwch Is-Lywydd




572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 10 28/03/2017 4:21 PM

# BCB International



Mae BCB International yng Nghaerdydd wedi bod yn dylunio a chynhyrchu cyfarpar arbenigol ar gyfer goroesi a diogelu bywyd er 1854.

Mae'r cwmni'n cyflenwi lluoedd milwrol â chyfarpar fel arfwisgoedd, pecynnau cymorth cyntaf a chyflenwadau gwersylla. Mae'n allforio 40 y cant o'i gynhyrchion, i UDA, y Dwyrain Canol ac Ewrop yn bennaf ac mae ei drosiant yn bron £9 miliwn.

Manteisiodd BCB ar gymorth gan Lywodraeth y DU wedi iddo ennill contract pwysig i gyflenwi Llynges Ecuador â 100 o arfwisgoedd chwyddadwy. Roedd llynges y wlad am gael gwarant talu a daeth UK Export Finance (UKEF) i'r adwy i rannu'r risg drwy ei gynllun cymorth bondiau fel y gallai BCB ei ddefnyddio fel cyfalaf gweithio ar gyfer yr archeb ac ymgymryd â mwy o fusnes.

Rhai o gynhyrchion mwyaf adnabyddus y cwmni yw colur cuddliwio a Fire Dragon, y system y mae Byddin Prydain yn ei defnyddio i helpu milwyr i dwymo eu bwyd a chynhesu diodydd ym mhob math o dywydd. Heblaw'r defnydd milwrol ohoni, mae marchnad ryngwladol fawr i system Fire Dragon yn y marchnadoedd gwersylla, goroesi a hamdden a'r marchnadoedd arlwyo.

Defnyddir cynhyrchion y cwmni yn y frwydr yn erbyn môr-ladrata oddi ar lannau  Somalia. Mae un o gynhyrchion BCB o'r enw Barracuda yn ei fachu ei hun am gychod bach sy'n ymosod ac yn eu lapio mewn webin i'w hanalluogi.

*"Roedden ni'n gweld bod gwasanaethau Llywodraeth y DU yn berffaith i gwrdd â'n hanghenion. Os oedd ei gwasanaethau yn gweithio i ni, gallan nhw weithio i rywun. Rydw i'n annog cwmnïau i edrych ar great.gov.uk"*

**Andrew Howell**
Rheolwr Gyfarwyddwr





Milwr Prydeinig yn defnyddio llenwr bagiau tywod BCB yn ystod y llif

572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 11 28/03/2017 4:21 PM



# Cloth Cat

Mae Cloth Cat Animation yn un o nifer mawr o gwmnïau creadigol llwyddiannus yng Nghymru y gwelir eu hallforion ar sgriniau teledu ym mhob rhan o'r byd.

Y stiwdio hon yng Nghaerdydd yw'r cwmni cynhyrchu animeiddio mwyaf yng Nghymru. Mae ei dîm o gyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, artistiaid a thechnegwyr amryddawn a phrofiadol wedi hyrwyddo llwyddiant y cwmni drwy rannu eu brwdfrydedd dros ddylunio rhagorol a storïau sy'n bachu sylw.

Mae Cloth Cat yn arbenigo mewn darparu prosiectau creadigol, dyfeisgar, cyfoethog o ran dylunio wedi'u seilio ar dechnegau cadarn ar gyfer cynulleidfaoedd o bob math drwy gyfresi darlledu, ffilm, hysbysebion, gemau a chynnwys i'r we.

Gall ddatblygu prosiect o'r cysyniad a'r camau cyntaf at ei ddarparu drwy ddarlledu ar-lein, y cyfan o dan yr un to.

Fel cwmni allforio a phartner cydgynhyrchu, mae gwaith Cloth Cat wedi'i weld ar rwydweithiau ar draws y byd. Gwelwyd ei waith ar sianeli fel CBeebies, Disney, Cartoon Network, Sprout, Netflix, S4C, RTÉjr, ABC Australia a nifer mawr o sianeli eraill ledled y byd.

Darparwyd cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU i Cloth Cat i fynychu cynhadledd KidScreen ym Miami, cynhadledd flynyddol ar gyfer cyfryngau plant yn UDA. Mae Cloth Cat hefyd wedi mynychu sioe fasnach P2P Llywodraeth y DU yn Shanghai.

Cafodd y cwmni lwyddiant yn America ym mis Ionawr eleni pan enillodd ei gydgynhyrchiad o'r ffilm animeiddio Ethel and Ernest, sy'n seiliedig ar stori gan Raymond Briggs, y bleidlais am y wobr "Best of Fest" yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Palm Springs yng Nghaliffornia.

*"Mae ein perthynas â Llywodraeth y DU yn ein helpu i fanteisio ar y nifer cynyddol o gyfleoedd am fasnachu a dosbarthu ar lwyfannau digidol."*

**Jon Rennie**
Rheolwr Gyfarwyddwr Cloth Cat Animation



572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 12 28/03/2017 4:21 PM



# Dawnus

Mae cwmni Dawnus yn Abertawe yn ateb gofynion cleientiaid cyhoeddus a phreifat am brosiectau peirianneg sifil fel seilwaith ar gyfer mwyngloddio, adeiladu argaeau, gwaith ar borthladdoedd, pontydd a gwaith paratoi ar gyfer rheilffyrdd a ffyrdd.

Mae'r cwmni'n darparu hyfforddiant, rheolaeth ar brosiectau a gwasanaethau peirianneg ac yn darparu ei gyfarpar a'i beiriannau ei hun ar gyfer y contractau hyn.

Mae hanner ei waith yn dod o gontractau yng Ngorllewin Affrica. Yn 2012, roedd £20 miliwn o drosiant Dawnus o £175 miliwn wedi dod o Senegal a thua £67 miliwn o Sierra Leone. Rhai o'i brosiectau amlycaf yw adnewyddu rheilffyrdd a gwaith ar borthladdoedd a mwyngloddiau i gwmni mwyngloddio yn Sierra Leone, African Minerals Plc.

Roedd Llywodraeth y DU yn gallu dod i'r adwy i helpu Dawnus pan enillodd gontract tair blynedd i ddarparu pob un o'i wasanaethau, yn cynnwys cyfarpar a hyfforddiant, i helpu London Mining Plc, cwmni arall sydd â'i bencadlys yn Sierra Leone.

Roedd Dawnus yn gallu manteisio ar gynllun cyllid tymor byr UK Export Finance pan oedd gofyn iddo ddarparu bond perfformiad am US$15 miliwn i sicrhau'r cytundeb.

Roedd y cymorth hwn yn ei alluogi i gychwyn ar brosiect London Mining ac mae Dawnus wedi mynd ymlaen i edrych ar gyfleoedd yn Tanzania. Roedd ei lwyddiant yn Affrica wedi parhau pan ddyfarnwyd contract dwy flynedd i'r cwmni ym Mehefin 2015 i adeiladu'r prif waith sifil yng Ngwaith Ynni Dŵr Mount Coffee yn Liberia.

> *"Roedd y cymorth gan Lywodraeth y DU wedi ein galluogi i sicrhau'r bondiau a oedd yn hanfodol i sicrhau'r prosiectau arbennig hyn."*
>
> **Bob Jones**
> Rheolwr Gyfarwyddwr







# Flamgard

Mae cwmni Flamgard Calidair yn arwain y farchnad ryngwladol mewn gweithgynhyrchu damperi i atal ymlediad tân, mwg a phwysau o ffrwydradau.

Mae dyluniadau'r cwmni, sydd â'i waith ym Mhont-y-pŵl, wedi'u defnyddio mewn sectorau sy'n cynnwys ynni niwclear; petrocemegol, olew a nwy; amddiffyn; twneli a chludiant dan ddaear a pheirianneg llongau a'r môr.

Sefydlwyd y cwmni ym 1981 ac mae wedi creu sylfaen o gwsmeriaid teyrngar ar gyfer ei gynhyrchion mewn gweithfeydd diwydiannol a gorsafoedd pwer, rigiau drilio a llongau o bob math.

Un o brosiectau amlycaf Flamgard mewn gwlad dramor yw ei gyfraniad at y casin symudol mawr o amgylch gwaith niwclear Chernobyl yn Rwsia. Enillodd Flamgard gontract i ddarparu damperi tân ac atal ar gyfer yr adeilad – yr adeiladwaith symudol mwyaf yn y byd – a gaiff ei osod ar gledrau i orchuddio'r cyn adweithydd niwclear a'r adeilad o'i gwmpas.


Maes busnes newydd arall i'r cwmni yw America Ladin, lle mae Flamgard newydd benodi dosbarthwr ym Mrasil mewn ymateb i'r galw cynyddol am ei ddamperi.


Cwsmer arall yw llynges Ffrainc sydd wedi archebu damperi tân ac atal ar gyfer nifer o longau tanfor newydd. Roedd bondiau yswiriant a ariannwyd gan UK Export Finance wedi'i helpu i sicrhau'r contract ar gyfer prosiect Chernobyl.

Mae'r archeb yn un o nifer a gafwyd yn ddiweddar ar gyfer gwaith morwrol, ar fwrdd llongau ac ar lwyfannau sefydlog sy'n gweithredu mewn amgylcheddau heli garw. Mae Flamgard hefyd wedi cymryd rhan mewn taith fasnach i Japan a drefnwyd gan Lywodraeth y DU.

*"Mae'r cymorth a gawson ni gan Lywodraeth y DU a'r sector preifat wedi ein helpu i ennill contractau mawr yn y farchnad fyd-eang."*

**Steve Edwards**
Rheolwr Gyfarwyddwr







# Halen Môn



Mae Halen Môn wedi allforio ei gynhyrchion er 2001 pan aeth y cwmni i sioe fasnach yn Nulyn i chwilio am ddosbarthwr yn Iwerddon – a dod adref wedi cael un ar gyfer America.

Un o'r rhwystrau oedd argyhoeddi dinasyddion UDA bod Halen Môn yn addas i lysieuwyr – a'i fod yn cael ei wneud yn 'Wales', nid mewn 'whales' – ac, o ganlyniad i hyn, mae marchnad UDA yn parhau'n bwysig, ochr yn ochr â gwledydd yr UE fel yr Eidal, Sbaen, Ffrainc a Denmarc.

Mae Llywodraeth y DU wedi helpu Halen Môn i drefnu cyfarfodydd â phrynwyr mewn marchnadoedd mor amrywiol â Hong Kong, Singapôr, Tsieina, Rwsia a Japan.

Mae'r cwmni wedi dysgu delio â'r gwaith papur angenrheidiol a chydymffurfio â rheoliadau ar gyfer allforio a labelu ac wedi cael ei ysbrydoli drwy gwrdd â chwmnïau o Brydain Fawr ar deithiau masnach ac mewn digwyddiadau eraill.

Gyda chymorth Llywodraeth y DU, mae Halen Môn wedi darganfod pa wledydd sydd â monopoli ar fewnforion halen (y Swistir, Fiet-nam), pa rai sy'n hoffi ïodin ychwanegol (Denmarc a'r Swistir) a pha rai sy'n awyddus i dderbyn halen môr o Gymru.

Gyda chymorth Llywodraeth y DU, enillodd y cwmni statws Enw Tarddiad Gwarchodedig yn 2014 sy'n ategu ei strategaeth ar gyfer gwerthu yn yr UE a thu hwnt.

Mae'r cwmni'n credu bod y cymorth a gafodd dros yr 21 mlynedd diwethaf wedi caniatáu iddo dyfu nes ei fod bellach yn gwerthu halen mewn 17 o wledydd.

*"Mae allforio'n cynyddu busnes, yn rhannu'r risgiau rhwng gwahanol farchnadoedd ac, yn fwy na dim, mae'n hwyl."*

**Alison Lea-Wilson**
Cyd-sylfaenydd









# Penderyn

Mae enw wisgi Penderyn wedi dod yn arwydd o ansawdd uchel ers ei lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2004, ym mhresenoldeb EUB y Tywysog Siarl.

Yn ei waith ym mhen deheuol Bannau Brycheiniog – lle mae'n defnyddio dŵr' o ffynon leol – mae'r cwmni wedi mynd ymlaen i gynhyrchu'r hyn sy'n cael ei gydnabod yn un o'r wisgis brag sengl gorau yn y byd.

Ar ôl argyhoeddi'r beirniaid yn y DU, mae Penderyn Whisky wedi dod o hyd i farchnadoedd newydd mewn 25 o wledydd, yn cynnwys Tsieina, Rwsia ac Awstralia. Fis Tachwedd diwethaf aeth y cwmni i Efrog Newydd i godi ei broffil mewn digwyddiad blasu.

Mae Penderyn wedi ymdrechu i ddatblygu marchnadoedd tramor drwy elwa o gyngor a chymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU ac mae wedi'i gynnwys cyn hyn yn y rhaglen "Exporting is Great".

Mae'r cwmni wedi cymryd rhan mewn teithiau masnach a chael cymorth ar gyfer sioeau a digwyddiadau mwy arbenigol. Yn ddiweddar, cynhaliodd drafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch allforio a brandio gwirod.

Mae safle Penderyn yn Aberhonddu wedi croesawu ymweliadau gan Lywodraeth y DU wrth iddo ehangu – agorwyd canolfan i ymwelwyr yn y ddistyllfa yn 2008 ac ehangodd ei waith cynhyrchu yn 2013.

Mae rheolwr gyfarwyddwr y cwmni Stephen Davies wedi bod yn lladmerydd dros wisgi Cymreig yn Stryd Downing yn y dathliadau blynyddol ar Dydd Gŵyl Dewi yn 2014, 2015 a 2017.

*"Mae'n hanfodol i lwyddiant a lles hirdymor y busnes ein bod yn datblygu ein brand mewn marchnadoedd tramor sydd wedi'u dewis yn ofalus ac rydym yn ddiolchgar am gymorth Llywodraeth y DU i'n helpu i gyrraedd ein hamcanion."*

**Stephen Davies**
Rheolwr Gyfarwyddwr





# Radnor Hills

Dechreuodd cwmni Radnor Hills ar y gwaith o lenwi cwpanau â dŵr mwynol ar un o ffermydd y teulu yng Nghanolbarth Cymru ym 1991 – drwy werthu cwpanau wedi'u selio â ffoil i gwmnïau hedfan ar gyfer prydau bwyd i deithwyr. Ychydig flynyddoedd wedyn prynodd y cwmni linell potelu ac ychwanegodd boteli o ddŵr mwynol a dŵr ffynnon cyflasedig at ei arlwy o gynhyrchion.

Ym 1996, aeth y cwmni i sioe fasnach bwyd a diod ryngwladol SIAL ym Mharis a mentro i faes allforio. Ar ôl mynychu sioeau masnach tramor ym Mharis, Cwlen, Amsterdam a Barcelona, mae Radnor Hills wedi mynd ymlaen i werthu ei gynhyrchion yn Ffrainc, yr Almaen, Sweden, Sbaen, Malta, Cyprus, Gwlad Groeg, ac mor bell i ffwrdd â Tsieina, Malaysia a Thrinidad. Mae Radnor Hills wedi cael llawer o gymorth a chyngor gan Lywodraeth y DU a'r Siambr Fasnach leol dros y blynyddoedd ac mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy wrth fentro i farchnadoedd tramor yn Ewrop a thu hwnt.

Er bod y farchnad allforio'n gyfran fach o drosiant y cwmni o £34 miliwn – gan fod 50 y cant ohono'n dod o botelu diodydd meddal dan eu label eu hunain i dri o gwmnïau siopau cadwyn bwyd mwyaf y DU – mae'n farchnad bwysig ar gyfer y dyfodol. Mae'r cwmni'n credu y bydd allforion yn chwarae rhan hanfodol yng nghynllun pum mlynedd Radnor Hills i gynyddu'r gyfran o gynhyrchion â brand Radnor yn ei drosiant i 70 y cant.

*"Cafodd Radnor Hills gymorth ariannol amhrisiadwy ar gyfer prosiectau yn nyddiau cynnar y cwmni yn ogystal â chymorth, hyfforddiant a chefnogaeth i ni fel newydd-ddyfodiaid ym maes allforio. Mae teithiau masnach a chymryd rhan mewn arddangosfeydd tramor wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r cwmni."*

**William Watkins**
Rheolwr Gyfarwyddwr a Sylfaenydd







572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 17 28/03/2017 4:21 PM

# Reid Lifting



Mae Reid Lifting yng Nghas-gwent yn gwmni sy'n arloesi mewn dylunio a gweithgynhyrchu cyfarpar codi ysgafn, cludadwy.

Mae'r cyfarpar wedi'i ddyfeisio fel y gellir ei gludo'n hawdd at y man gweithio a'i gydosod yn rhwydd â llaw.

Cafwyd cydnabyddiaeth i ansawdd a natur arloesol ei arlwy o gynhyrchion drwy ddyfarnu trydedd Wobr y Frenhines am Fenter iddo yn 2013.

Allforion yw 50 y cant o drosiant y cwmni ac mae hyn wedi'i ddatblygu drwy fuddsoddi cyson mewn amser ac ymdrech i feithrin cysylltiadau tymor hir.

Mae cymorth gan Lywodraeth y DU wedi ategu llawer o waith allforio Reid Lifting a defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau mewn gwahanol farchnadoedd.


Mae'r cwmni'n credu bod cymorth Llywodraeth y DU wedi'i alluogi i arddangos mewn sioeau masnach tramor. Mae wedi cael cymorth i gymryd rhan mewn sioeau masnach yn Dubai, Paris, Hannover, Munich, Amsterdam a Chicago.

Mae gwasanaeth Llywodraeth y DU ar gyfer cyflwyniadau i farchnadoedd tramor wedi darparu cyflwyniadau defnyddiol i farchnadoedd newydd, lle mae ymgynghorwyr neu arbenigwyr masnach mewn llysgenadaethau wedi ymchwilio i'r farchnad ac wedyn wedi trefnu cyfres o gyfweliadau cysylltu 'cynnes' yn ystod taith fasnach.

Mae'r rhain yn cael eu hategu hefyd gan dderbyniadau mewn llysgenadaethau a drefnwyd gan y llywodraeth gyda gwahoddiadau i gwsmeriaid posibl a rhwydweithio neu ddigwyddiadau eraill yn y farchnad. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i Reid Lifting yn Japan, yr Almaen, Sbaen a Sweden.

*"Roedd y cymorth gan Lywodraeth y DU yn bwysig o ran helpu Reid i gymryd y camau cyntaf ar gyfer allforio – cawson ni gyngor ar ein marchnadoedd targed a'r gwaith papur roedd ei angen i'w cyrraedd."*

**Nick Battersby**
Rheolwr Gyfarwyddwr





# Cwmni Caws Eryri

Lansiodd Cwmni Caws Eryri ei strategaeth fusnes tymor hir yn 2003 "i gynhyrchu a gwerthu brand arbenigol a gydnabyddir ar draws y byd ar bob cyfandir gan hyrwyddo gwir werthoedd Cymru".

Y Little Black Bomber, y Green Thunder a'r Red Devil yw rhai o'r cynnyrch eiconig mwyaf amlwg, ac maent yn helpu'r cwmni i geisio cyrraedd ei darged erbyn 2025.

Cafodd y busnes ei lansio fel ymateb i'r 'dadeni bwyd byd-eang' ac mae Llywodraeth y DU wedi darparu llwybr at fasnach ryngwladol drwy ei rhwydwaith o lysgenadaethau, sianeli diplomataidd, ac asedau strategol gan gynnwys llwyfan mewn sioeau masnach a chefnogaeth y gweinidog.

Mae Cwmni Caws Eryri yn credu mai rhai o brif werthoedd Cymru yw ei bod yn wlad sy'n cynnig cyfle i freuddwydio, i ofalu ac i gredu. Mae marchnadoedd ar draws y byd yn ymddiried yn fawr iawn yn enw da Brand Britain, ac mae'r Cymry, wrth reddf, yn bobl sy'n gofalu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad, gwerthoedd a chynnyrch y cwmni.

Mae uchelgais a gweledigaeth yn greiddiol i fusnes llwyddiannus ac mae Snowdonia yn cyflawni hyn drwy gynllunio craff, manylder, a sicrhau bod ganddynt y gallu i gyflawni gwir nodau busnes.

Mae'r holl gynnyrch helaeth, ynghyd ag amrywiadau mwy diweddar gan gynnwys Bouncing Berry a Red Storm, wedi ffynnu mewn marchnadoedd ar draws gwledydd Ewrop, Gogledd America, Asia a'r Môr Tawel.

Roedd yn bleser gan Snowdonia weithio gyda Llywodraeth y DU yn Sioe Fwyd Ffansi'r Gaeaf yn San Francisco a Foodex Tokyo yn ystod 2016. Mae Snowdonia wedi sicrhau gwell gadarnle, gwerthiant a buddsoddiadau, yn y marchnadoedd hyn, o ganlyniad i wneud hyn.

*"Mae gan Britain plc berthynas fyd-eang anhygoel ac mae gan ein marchnadoedd ffydd yn hyn. Gan weithio gyda Llywodraeth y DU ac, yn y pendraw, gyda'n partneriaid a'n defnyddwyr ar draws y byd, mae'r cyfleoedd masnachu ar gyfer Prydain yn fanteisiol"*

**Yn ôl John Newton-Jones**
Rheolwr Gyfarwyddwr








# SPTS Technologies



Mae gan SPTS Technologies hanes hir o arloesi â thechnolegau prosesu wafferi newydd ar gyfer y diwydiannau gweithgynhyrchu rhyngwladol ym maes lled-ddargludyddion a micro-electroneg. Cyflwynwyd Gwobr y Frenhines am Fenter mewn Masnach Ryngwladol i SPTS yn 2013, ac mae'n allforio mwy na 95 y cant o'i gynhyrchion i gwsmeriaid rhyngwladol ledled y byd o'i bencadlys yng Nghasnewydd. Mae bellach yn gwerthu mwy nag £1 biliwn o allforion.

Defnyddir cyfarpar SPTS i weithgynhyrchu lled-ddargludyddion a dyfeisiau micro-electronig a geir mewn nifer mawr o gynhyrchion electronig i ddefnyddwyr, offer domestig a moduron. Mae'r rhain yn effeithio ar ein bywyd pob dydd ac fe'u ceir ym mron pob ffôn clyfar yn y byd, mewn synwyryddion rheoli ynni mewn offer domestig ac yn systemau diogelwch moduron.

Mae allforio'n allweddol i strategaeth twf SPTS a'i gynaliadwyedd fel busnes. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu hyfforddiant amhrisiadwy i SPTS ar gydymffurfio â rheoliadau mewnforio ac allforio ac wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr o'i weithdrefnau. Roedd y cymorth hwn wedi rhoi i SPTS y wybodaeth a'r offer roedd eu hangen i reoli risg a chynnal busnes allforio mwy costeffeithlon.

Mae gan SPTS hanes da o ganfod technolegau a chymwysiadau newydd a mentro i farchnadoedd byd-eang newydd. Pan benderfynodd SPTS ehangu ei fusnes i'r UAE a sefydlu asiant yn Abu Dhabi, roedd Llywodraeth y DU wedi helpu'r cwmni i wneud busnes mewn marchnad newydd lle nad oedd wedi cael cymorth lleol cyn hynny.

*"Mae'r cymorth a hyfforddiant a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn ein galluogi i ddeall a delio'n llwyddiannus â gofynion a rheoliadau morgludo sydd weithiau'n gymhleth er mwyn cyflenwi ein cynhyrchion i'n cwsmeriaid rhyngwladol yn ddi-dor."*

**Kevin Crofton**
Llywydd SPTS Technologies








# Unit Superheater Engineering



Sefydlwyd cwmni Unit Superheater Engineering yn Abertawe ym 1983 i gynhyrchu cyfarpar thermol arbenigol i'w ddefnyddio mewn cyfnewidyddion gwres. Mae'r cwmni a'i 65 o weithwyr yn cyflenwi cleientiaid yn y sectorau ynni ac olew a nwy, yn cynnwys EDF, Eon, Total ac Exxon Mobil. Mae Unit Superheater yn allforio 20% o'i waith, i Nigeria, Pacistan a Rwsia'n bennaf.

Roedd Llywodraeth y DU yn gallu helpu'r cwmni yn 2012 pan enillodd gontract i gyflenwi cwmni darparu olew a nwy sy'n eiddo i wladwriaeth Libya â chydrannau pwrpasol ar gyfer un o'i gyfnewidyddion gwres. Roedd y contract, a oedd yn werth £212,000, yn gyfle deniadol i'r cwmni, ond nid oedd yn gallu dod o hyd i yswiriant masnach gan y sector preifat. Gwnaeth Unit Superheater gais llwyddiannus i UK Export Finance am Bolisi Yswiriant Allforio sy'n yswirio'r cwmni allforio rhag y perygl o beidio â chael ei dalu a achoswyd gan brynwr penodol neu risgiau gwleidyddol.


Mae'r cwmni – a elwir yn Unit Birwelco bellach – wedi parhau â'i lwyddiant mewn marchnadoedd tramor, gan agor swyddfeydd yn Houston yn UDA ac yn Al-Khobar yn Saudi Arabia.

Yn agosach atom, cafodd Unit Birwelco ei gomisiynu i gynnal amrywiaeth o weithgareddau peirianneg ac adeiladu yn ystod cyfnod adeiladu terfynfa nwy naturiol hylifedig South Hook yn Aberdaugleddau, y derfynfa fwyaf o'i bath yn Ewrop. Cyfrannodd y cwmni 200,000 o oriau gwaith i'r prosiect a'i werth terfynol oedd £35 miliwn.

*"Mae Llywodraeth y DU yn ein helpu ni i fanteisio ar y marchnadoedd heb eu cyffwrdd ac yn helpu ein cwmni i ddod yn wirioneddol fyd-eang. Mae hyrwyddo ein cynnyrch a'n gwasanaethau drwy farchnadoedd allforio yn cynnig amrywiaeth i ni, yn ogystal â modd o ledaenu ein risg a gwella ein perfformiad ar lwyfan y byd." Mark Phillips, Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp."*

**Mark Phillips**
Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp





572230_Exporting is GREAT (WELSH) NEW.indd 21 28/03/2017 4:21 PM

Y FUNUD HON

# MAE'R BYD AM GAEL NWYDDAU A GWASANAETHAU O ANSAWDD DA O'R DU

Mae miliynau o bobl ledled y byd yn chwilio am eich sgiliau, arbenigedd, nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r galw yno. Dylech chi fod yno hefyd.

great.gov.uk

